## ASTUDIAETH ACHOS: Clwb Golff Cradoc

### Cyflwyniad

Roedd Ymddiriedolaeth Natur Sir Frycheiniog (WTSWW erbyn hyn) wedi gweithio o'r blaen â Chlwb Golff Cradoc ynglŷn â chynefin ar gyfer Madfallod Dŵr Cribog. Cafwyd cyswllt dilynol â'r clwb ac roedden nhw'n awyddus iawn i annog mwy o fioamrywiaeth ar eu safle. Roedd y cyfarwyddwyr ar y pryd yn gweithio tuag at Achrediad OnCourse, sy'n cynnwys adran ar reoli'r amgylchedd a bioamrywiaeth. Y nodau a osodwyd oedd sefydlu ardal enghreifftiol o flodau gwyllt, clirio llawryf a oedd wedi tyfu'n wyllt a chael arwyddion dehongli i 'addysgu' aelodau'r clwb a chwaraewyr sy'n ymweld am werth tiroedd y maes golff ar gyfer bywyd gwyllt.

### Y Prosiect

- Cyngor ysgrifenedig, gan gynnwys map sy'n nodi ardaloedd posibl i weithio arnyn nhw
- Darparwyd planhigion plwg a bylbiau blodau gwyllt, hadau blodau gwyllt, 2 goeden afalau
- Plannwyd yr uchod gyda gwirfoddolwyr o Glwb Golff Cradoc a Grŵp Lleol Aberhonddu
- Cyflogwyd contractwyr i dorri ac asglodi llawryf oedd wedi tyfu'n wyllt
- Bu gwirfoddolwyr yn ailblannu ardal â choed llydanddail brodorol
- Samplwyd bryn am gapiau cwyr a ffyngau glaswelltir eraill gan ddefnyddio dadansoddiad eDNA
- Dyluniwyd a phrynwyd arwyddion dehongli ynglŷn â Madfallod Dŵr Cribog a Choetir Penoyre Wood

### Allbynnau'r Prosiect

- Heuwyd hadau blodau gwyllt a phlannwyd planhigion plwg blodau gwyllt dros 70m sgwâr.
- Plannwyd 2 goeden afalau ger coeden oedd wedi hen sefydlu a phlannwyd 150 o fylbiau o dan y rhain (50 yr un o gennin-Pedr, eirlysiau a chlychau'r gloch gwyllt).
- Bu 11 o wirfoddolwyr wrthi'n plannu.
- Cliriwyd rhyw 200m sgwâr o goetir o lawryf goresgynnol anfrodorol.
- Ailblannwyd â 60 o chwipiaid llydanddail brodorol.
- Gosodwyd 2 arwydd dehongli mewn ffrâm pren caled.
- Nodwyd 30 rhywogaeth o ffyngau glaswelltir, ac roedd 7 o'r rhain yn gapiau cwyr. Ystyriwyd bod 6 rhywogaeth o ffyngau glaswelltir dan fygythiad, ac roedd 3 o'r rhain yn rhywogaethau capiau cwyr.



Cap Cwyr Pinc (*Porpolomopsis calyptriformis)* yr ystyrir ei fod dan fygythiad

**Deilliannau'r Prosiect**

- Cafwyd gwared â llawryf goresgynnol anfrodorol o gynefin coetir.
- Crëwyd ardal blodau gwyllt fel offeryn addysgol i aelodau'r clwb ddeall bod y maes golff yn gallu cael lle ar gyfer bywyd gwyllt.
- Mae gan y grŵp nawr wybodaeth a sgiliau allweddol i greu ardaloedd blodau gwyllt ychwanegol yn y dyfodol ac i reoli'r coetir.
- Bydd arwyddion dehongli'n galluogi aelodau'r clwb, chwaraewyr sy'n ymweld a phreswylwyr Tŷ Penoyre i ddysgu am Fadfallod Dŵr Cribog ac i ddeall pam fod y coetir wedi'i reoli fel ag y mae.
- Mae'r adroddiad eDNA ar gapiau cwyr a ddarparwyd yn dangos gwerth y bryn fel cynefin prin. Mae eu ffordd o'i reoli ar hyn o bryd yn gweithio i bob golwg. Partneriaeth â WTSWW i gael aelodau'r clwb i ymgysylltu â'r bywyd gwyllt ar eu maes golff, gyda digwyddiadau yn y dyfodol.



Yn plannu planhigion plwg blodau gwyllt



Yn plannu coed afalau